PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

IRM CYMRU independent review mechanism mecanwaith adolygiad annibynnol

# Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM)

## Adroddiad Blynyddol 2023 – 2024



Claire Sharp, Rheolwr Contract

# Cynnwys


Cyflwyniad i'r IRM ... 3

Ar gyfer pwy mae'r cyhoeddiad hwn? ... 3

Cefndir yr IRM ... 4

Rôl y Panel IRM ... 5

Trosolwg o'r gwasanaeth – Awst 2023 – Gorffennaf 2024 ... 7

Statws perthynas ymgeisydd/ymgeiswyr ... 8

Math o gais ... 9

Perthynas gofalwyr sy'n perthyn i blant sy'n cael eu maethu trwy gais ... 9

Canlyniadau Paneli – argymhellion ... 10

Codi Ymwybyddiaeth o'r IRM ... 11

Grwpiau/digwyddiadau a fynychwyd gan y rheolwr contract i godi ymwybyddiaeth o IRM ... 11

Themâu a nodwyd yn adborth IRM i asiantaethau ... 12

Pwy sy'n eistedd ar Banel IRM? ... 14

Sut mae Panel yn cael ei roi at ei gilydd? ... 15

Sicrhau annibyniaeth ac amrywiaeth aelodau'r Panel Canolog ... 16

Tystebau gan aelodau panel IRM ... 17

Adborth gan ymgeisydd/ymgeiswyr ... 17

Cyfleoedd Hyfforddiant a Datblygu ar gyfer Aelodau Rhestr y Panel Canolog ... 18

Datblygiadau gwasanaeth IRM yn 2023 – 2024 ... 19

# Cyflwyniad i'r IRM

Prif bwrpas y Mecanwaith Adolygu Annibynnol (*Independent Review Mechanism*/IRM) yw cynyddu hyder y cyhoedd yn nhryloywder y broses ar gyfer cymeradwyo pobl fel rhai addas i faethu neu fabwysiadu plant, ac annog mwy o bobl i ystyried maethu neu fabwysiadu rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Tîm bach ydym ni sy'n gweithio'n rhan-amser, sef Claire Sharp – Rheolwr Contract a Rachel Robinson – Gweinyddwr IRM.



**Claire Sharp**
Rheolwr Contract



**Rachel Robinson**
Gweinyddwr IRM

# Ar gyfer pwy mae'r cyhoeddiad hwn?

- Darparwyr gwasanaeth
- Gofalwyr maeth
- Mabwysiadwyr
- Darpar ofalwyr maeth a mabwysiadwyr
- Y rhai sy'n ceisio mynediad at gofnodion mabwysiadu
- Unrhyw un sydd â diddordeb mewn maethu a mabwysiadu
- Asiantaethau sy'n darparu cefnogaeth i ofalwyr maeth

# Cefndir yr IRM

Roedd gwasanaeth IRM wedi bod yn weithredol ers 2005 (wedi'i weithredu gan Lywodraeth Cymru). I ddechrau dim ond penderfyniadau ynghylch addasrwydd i fabwysiadu yr oedd adolygiadau'n ymwneud â nhw. Daeth Rheoliadau Adolygiad Annibynnol o Benderfyniadau (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 a Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Diwygio) Cymru 2010 i rym ym mis Ebrill 2010 gan ymestyn cylch gwaith yr IRM i gynnwys maethu.  Mae'r IRM wedi cael ei gynnal gan Plant yng Nghymru ers mis Medi 2015 sy'n gweithredu'r gwasanaeth ar ran Llywodraeth Cymru.



# Rôl y Panel IRM

## Addasrwydd i feithrin neu fabwysiadu

Mae'r IRM yn derbyn ceisiadau gan unigolion sydd wedi derbyn 'penderfyniad cymhwyso' gan asiantaeth ynghylch eu haddasrwydd i weithredu fel gofalwyr maeth neu rieni mabwysiadol. Mae'r IRM yn cynnig y cyfle i banel annibynnol adolygu'r wybodaeth am yr ymgeisydd/ymgeiswyr cyn i'r asiantaeth wneud y penderfyniad terfynol. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, a gwasanaethau maethu a mabwysiadu annibynnol.

Nid apêl mo'r panel adolygu'r IRM, ond adolygiad, ac ni all wrthdroi Penderfyniad Cymhwyso'r Darparwr Gwasanaeth Maethu (*Fostering Service Provider*/FSP). Fodd bynnag, gall wneud argymhelliad newydd i'r FSP ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd/ymgeiswyr i faethu neu fabwysiadu plentyn a/neu delerau'r gymeradwyaeth.

Bydd y panel adolygu yn gwneud ei argymhelliad ar ôl iddo ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd gerbron y panel gwreiddiol, ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai fod wedi'i chyflwyno i'w hystyried gan y panel IRM.

Mae'n rhoi cyfle i ymgeiswyr gael eu hachos wedi'i adolygu'n annibynnol ac i sicrhau bod unrhyw wybodaeth y maent yn teimlo na chafodd ystyriaeth briodol gan eu hasiantaeth yn cael ei hystyried gan y panel annibynnol. I asiantaethau, mae'n cefnogi eu cyfrifoldeb i ofalwyr maeth a mabwysiadwyr i weithredu o fewn fframwaith rheoliadau a chanllawiau maethu a mabwysiadu.

Gall y Panel Adolygu roi adborth i'r asiantaeth ar ei pholisi, ei harfer a'i gweithdrefn ac unrhyw ddysgu y mae'r panel yn credu y byddai'n ddefnyddiol iddynt ei ystyried o'r achos. Mae hon yn swyddogaeth sicrhau ansawdd bwysig sy'n fuddiol i'r ymgeisydd/ymgeiswyr ac i'r asiantaethau fel ei gilydd.

## Datgelu Gwybodaeth

Yn ogystal â'r adolygiadau uchod, gall y Panel IRM roi argymhelliad i oedolion mabwysiedig a fabwysiadwyd ar neu ar ôl 30ain Rhagfyr 2005, neu i berthynas genedigol rhywun a fabwysiadwyd ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw. Gellir ystyried dau faes:

- Ni fydd yr asiantaeth yn bwrw ymlaen â chais i ddatgelu gwybodaeth warchodedig, nac
- Y bydd yn datgelu'r wybodaeth yn erbyn ewyllys testun y wybodaeth.

Nid yw'r IRM wedi derbyn unrhyw geisiadau o'r fath hyd yn hyn, fodd bynnag, oherwydd oedran pobl yr effeithir arnynt gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, h.y. maent yn dod yn oedolion, rhagwelir y gallai hwn fod yn faes cynyddol ar gyfer argymhellion sydd angen adolygiad annibynnol.



# Trosolwg o'r gwasanaeth

Derbyniodd y gwasanaeth IRM 10 cais yn y flwyddyn adrodd 1af Awst 2023 hyd at ddiwedd Gorffennaf 2024. Roedd hyn yn gynnydd o'r flwyddyn flaenorol pan gafwyd 6. Tynnwyd un achos yn ôl. Mae nifer o achosion bob blwyddyn sy'n cael eu derbyn ond sydd â phaneli adolygu yn y flwyddyn adrodd nesaf.

## Ceisiadau i'r IRM – Awst 2023 – Gorffennaf 2024




Oherwydd y nifer fach o geisiadau, mae rhai manylion wedi'u golygu i'w cadw'n anhysbys.

| Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn y cyfnod hwn – 10 | | |
|---|---|---|
| **Mathau o geisiadau yn ôl categori** | 10 | Maethu |
| | 0 | Mabwysiadu |
| | 0 | Datgelu Gwybodaeth |
| **Mathau o geisiadau yn ôl statws yr ymgeisydd/ymgeiswyr** | 4 | Gofalwyr Maeth Prif Ffrwd |
| | 6 | Personau Cysylltiedig |
| **Mathau o gais** | 6 | Dadgofrestru |
| | 4 | Addasrwydd i Faethu |
| **Nifer y Paneli Adolygu a gynhaliwyd yn y cyfnod hwn** | 8 | Paneli wedi'u cwblhau |
| | 2 | Paneli wedi'u tynnu'n ôl |
| | 1 | Cais heb fynd rhagddo trwy ddewis yr ymgeisydd/ymgeiswyr |
| | 7 | Paneli sy'n ymwneud â cheisiadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn gontract hon (Awst 23 – Gorffennaf 24) |
| | 1 | Cynhaliwyd panel ar gais a dderbyniwyd yn y flwyddyn gontract flaenorol (Awst 22 – Gorffennaf 23) |
| **Math o gefnogaeth yn y panel gan ymgeisydd/ymgeiswyr** | 5 | Cefnogaeth ffurfiol gan y Rhwydwaith Maethu |
| | 2 | Cefnogaeth gan aelod o'r teulu |
| | 1 | Ni ofynnwyd am gefnogaeth |
| **Nifer yr achosion lle'r oedd Argymhelliad IRM yn cytuno â QD gan yr asiantaeth** | 6 | Achosion lle cytunodd yr IRM â'r QD |
| | 2 | Achosion lle na chytunodd yr IRM â'r QD. Roedd y ddau yn bobl gysylltiedig ac roedd penderfyniad terfynol yr asiantaeth yn unol â'r IRM |
| **Canlyniad y broses** | 5 | Dadgofrestru |
| | 2 | Wedi'u cymeradwyo fel addas |
| | 1 | Heb eu cymeradwyo |
| **Achosion sy'n ymwneud ag ymgeisydd/ymgeiswyr a nododd eu bod yn perthyn i grŵp ethnig lleiafrifol** | 2 | |
| **Statws perthynas yr ymgeisydd/ymgeiswyr** | 3 | Menyw sengl |
| | 1 | Dyn sengl |
| | 3 | Benyw a gwryw priod |
| | 3 | Partneriaid benywaidd a gwrywaidd di-briod |

# Math o gais




# Perthynas gofalwyr sy'n perthyn i blant sy'n cael eu maethu trwy gais

| Perthynas â’r plentyn/plant | Nifer y ceisiadau |
|---|---|
| Nain sengl fenywaidd | 1 |
| Taid sengl gwrywaidd | 1 |
| Neiniau a theidiau cwpl priod | 2 |
| Modryb ac Ewythr | 1 |
| Hen fodryb ac ewythr | 1 |

# Canlyniad y Paneli – argymhellion

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r IRM wedi cytuno â 6 o Benderfyniadau Cymhwyso'r FSP ac wedi anghytuno â 2 o Benderfyniadau Cymhwyso'r FSP. Yn y ddau achos, roedd penderfyniad terfynol yr Asiantaeth yn unol â'r argymhelliad a wnaed gan yr IRM.



# Codi Ymwybyddiaeth o'r IRM

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pwrpas a phroses yr IRM, mae Claire Sharp, Rheolwr Contract, wedi mynychu nifer o Grwpiau Diddordeb Arbennig a drefnwyd trwy'r Association for Fostering, Perthnasau a Mabwysiadu Cymru (AFKA Cymru), gan gynnwys Cadeiryddion Paneli, Swyddogion Adolygu Annibynnol, Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, Gofalwyr sy'n Berthnasau, a Chynghorwyr Cyfreithiol.

Mae'r gweithdai hyn wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ac wedi caniatáu trafodaethau diddorol ar ymarfer. Mae mynychu'r grwpiau diddordeb arbennig hefyd wedi helpu i gefnogi datblygiad cysylltiadau defnyddiol, ac wrth recriwtio aelodau newydd i'r panel. Mae Claire hefyd wedi rhoi cyflwyniadau i baneli mabwysiadu a maethu mewn awdurdodau lleol gan annog dealltwriaeth fwy llawn o'r hyn y gall adolygiad annibynnol ei gynnig i ymgeisydd/ymgeiswyr ac asiantaethau a sicrhau bod pobl sy'n gymwys ar gyfer y gwasanaeth yn cael cynnig yr opsiwn hwn.

# Grwpiau/digwyddiadau y mae'r rheolwr contract yn eu mynychu i godi ymwybyddiaeth o IRM

- Grwpiau diddordeb arbennig AFKA; IRO, Cyfreithiol, Cadeiryddion Paneli
- Cyfarfodydd y Gynghrair Gofal Perthnasau
- Gweithdy i Asiantaethau Maethu Annibynnol – cyflwynwyd gan yr IRM
- Bwrdd Ymgynghorol Gofalwyr Maeth Cymru
- Cynhadledd AFKA – Iechyd Plant sydd â Phrofiad o Ofal
- Ynys Môn – grŵp cymorth coffi a sgwrs gofal maeth
- Cynhadledd AFKA – Gofal gan berthnasau

# Themâu a nodwyd yn adborth yr IRM i asiantaethau

Gall y Panel Adolygu roi adborth i'r asiantaeth ar ei pholisi, ei harfer a’i gweithdrefnau ac unrhyw ddysgu y mae'r panel yn credu y byddai'n ddefnyddiol iddynt ei ystyried o'r achos. Mae hon yn swyddogaeth sicrhau ansawdd bwysig sy'n fuddiol i'r ymgeisydd/ymgeiswyr ac i'r asiantaethau fel ei gilydd. Gan fod yr IRM yn gweithredu ledled Cymru, mae ganddo drosolwg o arferion maethu a mabwysiadu ar draws gwahanol ddarparwyr gwasanaethau.  Mae gan yr IRM rôl o ran nodi a rhannu gwybodaeth gyda phawb sydd â diddordeb mewn gwasanaethau maethu a mabwysiadu yng Nghymru ynghylch materion a heriau sydd wedi'u nodi trwy waith yr IRM.

## Dysgu a datblygu

Er bod gofalwyr maeth yn cael cynnig hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad, bu achosion lle nodwyd tystiolaeth gyfyngedig o'r asiantaeth yn treulio amser i wirio dealltwriaeth y gofalwyr maeth o'r hyn y maent wedi'i ddysgu, a oeddent yn gallu rhoi'r dysgu ar waith ac a ydynt wedi gweithredu'r hyfforddiant trwy newid eu dull neu eu harfer i sefyllfaoedd.

## Papurau achos

Mae papurau a gyflwynwyd gan yr FSP wedi cael eu hanfon at yr IRM wedi'u golygu i hepgor elfennau ac mewn trefn ddryslyd, gan ei gwneud hi'n anodd eu darllen neu eu rhannu ag aelodau'r panel heb waith ad-drefnu sylweddol. Mae'r rheoliadau'n nodi'n benodol bod angen i'r FSP anfon yr adroddiad gwreiddiol ac unrhyw ddogfennau ategol a ddarparwyd yn wreiddiol i'r panel maethu. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr IRM fynediad llawn at yr un deunydd a lywiodd y penderfyniad gwreiddiol.

## Problemau gyda statws gofalwyr maeth sy'n wynebu dadgofrestru

Mae problem gyda FSP yn ystyried gofalwyr maeth fel rhai sydd wedi'u dadgofrestru pan fo argymhelliad negyddol o addasrwydd parhaus i faethu.  Ar y cam hwn, dim ond Penderfyniad Cymhwyso ydyw.  Caiff gofalwyr maeth eu dadgofrestru’n ffurfiol yn dilyn y penderfyniad terfynol gan Benderfynwr yr Asiantaeth ac maent yn cadw’r un hawliau i gael mynediad at wasanaethau fel aelodaeth o’r Rhwydwaith Maethu nes bod y penderfyniad terfynol wedi’i wneud.

## Anghysondeb ag adroddiadau

Nodwyd bod nifer o adroddiadau, gan gynnwys archwiliadau meddygol ac archwiliadau diogelwch cartref, wedi dyddio neu gyda gwybodaeth ar goll, gan gynnwys rhai heb eu llofnodi.

## Cynlluniau Gofalu Mwy Diogel

Mae sawl Panel wedi codi pryderon bod FSP wedi defnyddio Cynlluniau Gofalu Mwy Diogel generig yn lle creu cynlluniau pwrpasol i adlewyrchu natur benodol y lleoliad, mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn achosion perthnasau lle gall fod deinameg deuluol gymhleth.

## Gofalwyr maeth yn rheoli gwahanol leoliadau ar yr un aelwyd

Mae pryderon wedi cael eu codi ynghylch gofalwyr maeth yn darparu gwahanol fathau o ofal ar yr un pryd e.e., Maethu, Fy Nghefnogaeth, Pan Fydda i'n Barod, Seibiant, gofal dydd. Mae angen cynllunio, asesiadau risg a monitro gofalus ar gyfer yr heriau o ofalu am wahanol blant ac oedolion ifanc, ar yr un pryd, o dan wahanol reoliadau a rheolaeth. Mae angen edrych ar brosesau paru, yn enwedig wrth osod nifer o unigolion gwahanol gyda'i gilydd mewn un lleoliad/ar un aelwyd.

## Defnyddio Cyfieithwyr

Wrth ystyried a ddylid defnyddio cyfieithydd ar y pryd ar gyfer gofalwyr maeth nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, mae angen i'r FSP ystyried, er y gall y gofalwr maeth ddeall Saesneg llafar cyffredinol, y gall fod yn anoddach iddynt ddeall iaith ffurfiol/gyfreithiol maethu a disgwyliadau gofal cymdeithasol. Mae'n bosibl y gallai gofalwyr maeth wrthod y cynnig o gyfieithydd, am nad ydyn nhw eisiau cael eu gweld fel rhai sydd â sgiliau iaith cyfyngedig, rhag ofn y bydd paneli maethu yn ystyried hyn yn anffafriol. Os oes unrhyw rwystr iaith yn cael ei nodi, yna dylai popeth a drafodir fod yn eglur, nid yn ymhlyg. Dylid gwneud nodyn ysgrifenedig o wybodaeth, gwirio bod gan bob parti'r un ddealltwriaeth, ac egluro os oes unrhyw amheuaeth.



# Pwy sy'n eistedd ar Banel IRM?

Mae'r IRM yn annibynnol ar yr asiantaeth sy'n darparu'r gwasanaeth maethu neu fabwysiadu ac ni fydd gan y panel sy'n ystyried yr adolygiad unrhyw aelodau sy'n gysylltiedig â'r achos. Bydd yr ymgeisydd/ymgeiswyr yn derbyn enwau aelodau'r panel IRM a fydd yn ystyried yr achos a gallant hysbysu'r IRM os ydynt yn credu na ddylai aelod penodol o'r panel adolygu fod ar y panel ar gyfer eu hachos.

Mae'r IRM yn cynnal ei baneli'n rhithwir, fodd bynnag, gellid trefnu panel wyneb yn wyneb mewn amgylchiadau eithriadol i ddiwallu angen penodol. Mae yna hefyd yr opsiwn o gymorth technegol i ymgeisydd/ymgeiswyr sy'n llai hyderus gyda chyfarfodydd ar-lein. Mae'r trefniadau ar gyfer paneli yn cael eu hadolygu'n gyson ac mae gwelliannau'n parhau i gael eu gwneud i alluogi'r broses i redeg mor esmwyth â phosibl i bawb dan sylw.

Mae paneli rhithwir yn golygu bod yr IRM yn fwy hygyrch i bob ymgeisydd/ymgeiswyr heb yr angen i deithio i leoliadau. Unwaith y bydd yr IRM yn derbyn cais, byddant yn rhoi gwybod ymgeisydd/ymgeiswyr am ddyddiad ac amser y panel a fydd yn ystyried eu hachos ac yn anelu at gynnal pob panel o fewn 3 mis.

Mae'n bwysig bod yr IRM yn adolygu prosesau'n gyson ac yn cadw'n hysbys o'r ymchwil gyfredol ac arferion sy'n esblygu ym maes gofal cymdeithasol. Wrth asesu addasrwydd i faethu plant, mae'r panel yn ystyried y wybodaeth y maent wedi'i chlywed yn erbyn set o gymwyseddau. Ar gyfer gofalwyr maeth prif ffrwd, mae'r IRM yn defnyddio Cymwyseddau ar gyfer Maethu BAAF. Newid sylweddol yn y flwyddyn adrodd gyfredol oedd mabwysiadu'r Cymwyseddau Perthynas/Personau Cysylltiedig, a ddatblygwyd gan Gymdeithas Maethu, Perthynas a Mabwysiadu Cymru (AFKA) ar ran Llywodraeth Cymru, i adlewyrchu natur a heriau penodol gofalu am blant pan fo'r plant ac aelodau allweddol o'r teulu yn adnabyddus i'r gofalwyr maeth.



## Aelodau'r Panel

Mae'r IRM yn recriwtio ac yn cynnal Rhestr Ganolog o unigolion y gellir galw arnynt i gymryd rhan mewn adolygiad.  Mae'r rheoliadau maethu yn cyfeirio at restr o bobl sy'n 'addas yn rhinwedd eu sgiliau, eu cymwysterau neu eu profiad'. Ystyrir pob achos gan banel y mae gan ei aelodau brofiad personol neu broffesiynol o leoli plant, ond dim cysylltiad â'r achos sy'n cael ei adolygu. Mae gan baneli hefyd aelodau nad ydynt yn pleidleisio i gefnogi'r broses, gan gynnwys cynghorydd panel ac ysgrifennydd; ceisir cyngor cyfreithiol a meddygol i ddarparu gwybodaeth a chyd-destun ychwanegol i'r panel, ac maent yn parhau i fod ar gael dros y ffôn os bydd mater heb ei ddatrys yn codi yn ystod trafodaeth y panel.

## Sut mae Panel yn cael ei gynnull?

Pan ddaw cais i'r IRM ac yn cael ei dderbyn, mae Panel newydd yn cael ei ffurfio o'r rhestr ganolog. Bydd angen rhywun ar bob Panel i weithredu fel Cadeirydd a hefyd Cynghorydd Panel y mae'n rhaid iddo fod yn Weithiwr Cymdeithasol cymwys i gynghori ynghylch a yw'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu, a'r argymhellion a wneir, yn cydymffurfio â Rheoliadau Adolygiad Annibynnol o Benderfyniadau (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 a Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Diwygio) Cymru 2010.

Fel arfer mae gan Banel IRM rhwng 5-7 o bobl arno, gan gynnwys y Cadeirydd, a rhaid iddo gynnwys o leiaf 2 Weithiwr Cymdeithasol sydd ag o leiaf 3 blynedd o brofiad ôl-gymhwyso o wasanaethau mabwysiadu a maethu.  Mae'r lleoedd sy'n weddill yn cynnwys Aelodau Lleyg sydd â sgiliau a phrofiad perthnasol, gan gynnwys profiad bywyd o'r system ofal fel plentyn neu fel gofalwr maeth. Mae'n arfer da cael rhai aelodau sydd â phrofiad uniongyrchol sy'n ymwneud â natur pob cais penodol h.y., gofalwyr maeth prif ffrwd os yw'r cais yn ymwneud â dadgofrestru gofalwr maeth prif ffrwd. Ein nod yw cael cymysgedd o bobl ar Banel gan ystyried nodweddion fel oedran, rhywedd ac ethnigrwydd, yn ogystal â phrofiad bywyd.

Yn ogystal â rheoli'r gwaith achos sy'n ymwneud â cheisiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae IRM Cymru wedi parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu Rhestr y Panel Canolog. Mae'n bwysig bod gan aelodau'r IRM sgiliau a phrofiad sy'n berthnasol i amrywiaeth eang o ymgeisydd/ ymgeiswyr. Rydym wedi ymrwymo i ehangu'r gynrychiolaeth ar y paneli o bobl sydd â phrofiad byw o faethu a mabwysiadu, sydd â phrofiad o ofal, gofalwyr maeth cyfredol, neu rieni mabwysiadol. Mae dealltwriaeth gadarn o effaith trawma cynnar yn bwysig iawn wrth ystyried addasrwydd i ddarparu cartref gofalgar i blentyn sy'n methu byw gyda'i rieni genedigol.

# Sicrhau annibyniaeth ac amrywiaeth aelodau'r Panel Canolog

Mae'r IRM wedi datblygu a gweithredu ffurflen monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant electronig ar gyfer aelodau'r panel ac ymgeisydd/ymgeiswyr, gan gynnwys system i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei dychwelyd yn ddiogel ac yn ddienw. Y nod yw defnyddio'r wybodaeth hon i feincnodi ble mae aelodaeth y panel arni nawr, er mwyn monitro newidiadau mewn amrywiaeth dros amser.

Nid oes nifer sefydlog o aelodau a ddylai fod ar y rhestr ganolog, fodd bynnag mae'n bwysig cael niferoedd digonol i allu bodloni gofynion rhedeg panel sy'n amrywiol ac yn wirioneddol annibynnol. Mae'n gadarnhaol cael cymysgedd o aelodau panel sydd â phrofiad hir o'r IRM, a rhai sy'n dod yn newydd i'r broses.

Yn ystod y cyfnod hwn, recriwtiwyd pum aelod newydd i'r panel. Mae dau yn ddynion, sy'n grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol ar y rhestr ganolog. Mae dau o'r aelodau newydd o gymunedau ethnig lleiafrifol sydd hefyd heb gynrychiolaeth ddigonol ar y rhestr ganolog. Mae gan ddau brofiad byw o ofal gan berthnasau. Ymddiswyddodd un aelod panel hirdymor oherwydd ymddeoliad.

Mae'r aelodau newydd yn cynnwys:

**Gweithwyr Cymdeithasol**
Mae 1 yn IRO
Mae 1 yn rheolwr Sicrwydd Ansawdd IFA
Mae 1 yn Weithiwr Cymdeithasol annibynnol ac yn cadeirio paneli maethu

**Aelodau Lleyg**
Mae 1 yn ymchwilydd sy'n cynnal ymchwil cymheiriaid gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal
Mae 1 yn Ynad Heddwch, ac yn cadeirio paneli maethu

Mae'r rhan fwyaf o aelodau canolog newydd y panel wedi cyfrannu'n llwyddiannus fel aelodau llawn o'r panel ochr yn ochr ag aelodau sefydledig gyda chyfraniad cadarnhaol at drafodaethau'r panel.

Cyfanswm nifer aelodau presennol y panel ym mis Gorffennaf 2024 yw 27, gan gynnwys y cynghorwyr cyfreithiol a meddygol. Mae'r nifer uwch o aelodau ar y rhestr ganolog wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran llwyddo i gynnal cworwm gyda nifer uchel o baneli'n cael eu cynnal yn fuan ar ôl ei gilydd.

Rhoddir cyfle i aelodau newydd arsylwi paneli IRM cyn cymryd rhan weithredol. Mae'r Rheolwr Contract yn cynnal cyfweliadau ôl-arsylwi gyda phob aelod newydd i gael barn ar y broses gan 'bâr ffres o lygaid'.

# Tystebau gan aelodau panel

Mae'r sylwadau canlynol yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i'r profiad o gymryd rhan mewn panel IRM yn dilyn gwerthusiadau blynyddol o aelodau'r panel a gynhaliwyd yn hydref 2023.

**Beth ydych chi fwyaf balch ohono am weithio fel aelod o banel IRM?**

**Ymatebion dienw**

*Rwy'n falch o sut rydw i wedi ymgartrefu yn y rôl, gan fynd y tu hwnt i fy ffiniau cysur a herio fy hun yn broffesiynol. Rwy'n teimlo bod fy adborth bob amser yn deg ar ôl gwrando ar y ddwy ochr ac rwy'n cysylltu fy mhrofiadau fy hun fel gofalwr maeth â rhai o'r sefyllfaoedd a drafodwyd. Rwy'n teimlo fy mod yn broffesiynol ac er fy mod yn teimlo'n nerfus cyn pob panel, rwy'n gwneud fy ngorau i aros yn ddigyffro ac yn broffesiynol.*

*Gallu darparu strwythur ac eglurder i drafodaethau panel.*

*Rwy'n ymarferydd gwaith cymdeithasol gyda dros 35 mlynedd o brofiad mewn maethu ac amddiffyn plant, ac rwyf wedi dal nifer o swyddi gan gynnwys ymarferydd, swyddi arbenigol a swyddi uwch reolwr mewn awdurdod lleol. Rwy'n credu bod gen i ddealltwriaeth dda o'r ddeddfwriaeth a bod gen i'r gallu i gadeirio'r paneli'n effeithiol. Rwy'n credu'n gryf mewn sicrhau nad yw unigolion yn cael eu hymylu nac yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn, ac rydw i wedi bod yn ddi-flewyn-ar-dafod wrth godi problemau lle maent wedi digwydd.*

*Rwyf wedi eistedd ar baneli, a chadeirio paneli, ers 20 mlynedd, felly rwy'n dod â llawer o brofiad o achosion prif ffrwd a phobl gysylltiedig. Yn ddiweddar, cefais fy mhenodi'n gadeirydd panel maethu dinas fawr sy'n brysur iawn gydag amrywiaeth eang o achosion gwahanol, felly rwy'n ehangu fy ngwybodaeth a'm profiad – hefyd, mae'r profiad o fod mewn gofal fy hun yn fy helpu i weld pethau drwy lygaid y plentyn.*

*Gwrando, bod yn chwilfrydig, gwerthuso gwybodaeth yn feirniadol, rhoi barn wybodus*

*Profiad proffesiynol a phrofiad bywyd o faethu a mabwysiadu.*

*Fy mhrofiad a fy nghyfoeth o wybodaeth ynghylch maethu. Nodi problemau ymarfer. Hyrwyddo gofynion rheoleiddiol a statudol.*

*Rwy'n hynod falch o'r IRM oherwydd rwy'n teimlo ei fod yn rhoi llais i ofalwyr maeth, ac i asiantaethau yn wir, i leisio eu barn ar y materion dan sylw lle efallai eu bod wedi teimlo o'r blaen nad oeddent yn cael eu clywed neu eu bod yn cael eu camliwio. Mae hefyd yn sicrhau atebolrwydd ychwanegol i'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw. Rwy'n teimlo bod plant a phobl ifanc wrth galon yr IRM a bod holl aelodau'r Panel yn credu'n fawr yn yr egwyddor hon.*

# Adborth gan Ymgeisydd

*"Roedd y panel wedi'i drefnu'n dda ac yn effeithlon iawn, cafodd pawb eu trin gyda pharch."*

# Cyfleoedd Hyfforddiant a Datblygu ar gyfer Aelodau Rhestr y Panel Canolog

Mae hyfforddi a datblygu Aelodau ein Rhestr Panel Canolog yn parhau i fod yn ffocws. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd y gweithgareddau hyfforddi a datblygu canlynol gyda nifer dda yn bresennol yn y ddau ddigwyddiad ac adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn:

- Gweithdy IRM ar faterion cyfreithiol gan gynnwys Datgelu Gwybodaeth – Tachwedd 2023
- E-ddysgu ar gymunedau Teithwyr Sipsiwn Roma – Mehefin 2024

Mae aelodau'r panel canolog hefyd yn cael bwletinau cyfreithiol chwarterol gan AFKA Cymru, diweddariadau ar newidiadau mewn deddfwriaeth, a chanllawiau a chyfleoedd i fynychu gweminarau a hyfforddiant a ddarperir gan sefydliadau perthnasol eraill.



# Datblygiadau Gwasanaeth IRM yn 2023 – 2024

Mae'r IRM wedi parhau i ddatblygu'r trawsnewidiad llawn i wasanaeth digidol gyda'r holl ddogfennau'n cael eu hanfon a'u derbyn yn electronig pan bynnag fo modd. Yn ystod y flwyddyn adrodd gyfredol, mae Rheolwr Contract a Gweinyddwr Contract IRM wedi parhau i ddatblygu strwythur gweinyddol yr IRM fel a ganlyn:

**Monitro** – ffurflen ar-lein ar gyfer pob ymgeisydd/ymgeiswyr ac aelodau'r panel i sicrhau bod niferoedd/amrywiaeth yr Ymgeiswyr a'r Paneli yn gynrychioliadol ac yn gytbwys.

**Mynediad at a diogelwch gwybodaeth a rennir** – datblygiad parhaus safle SharePoint diogel ar gyfer Aelodau ein Rhestr Panel Canolog sy'n darparu un pwynt ar gyfer popeth sy'n ymwneud ag IRM, gan wella'r ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth, a gwella diogelwch ynghylch y ffordd y mae aelodau'r panel yn cael mynediad at ddogfennau cyfrinachol.

**Gwybodaeth Gyhoeddus** – rydym wedi parhau i adolygu a datblygu'r wefan gyda gweithdai wedi'u cynnal i gyd-gynhyrchu gwybodaeth gyda phartïon a chanddynt ddiddordeb.

**Cynyddu hygyrchedd a rhwyddineb defnyddio** – gellir dychwelyd yr holl wybodaeth y mae angen i ymgeisydd/ymgeiswyr ac aelodau'r panel ei chyflwyno drwy ffurflenni ar-lein yn lle lawrlwytho a sganio dogfennau.

**Cydymffurfio â diogelu data** – dull mwy cadarn o sicrhau bod pob dogfen nad yw wedi'i chynhyrchu gan IRM yn cael ei dileu a chyhoeddi ffurflen ar-lein i Aelodau'r Panel yn cadarnhau hynny.

**Ymwybyddiaeth gynyddol o'r IRM ymysg Asiantaethau Maethu Annibynnol (IFA)** – Mae pob Corff Maethu Annibynnol sy'n gweithredu yng Nghymru wedi'i nodi gyda gwybodaeth gyswllt a gedwir mewn cronfa ddata, mae hyn yn cefnogi cyfathrebu rheolaidd a gwahoddiadau i weithdai i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Maethu.

**Cynnal a chynyddu partneriaeth gydag AFKA Cymru** – sicrhau bod pob parti perthnasol yn deall rôl yr IRM a sicrhau mynediad at y gwasanaeth i'r rhai sy'n gymwys.

**Recriwtio i'r Panel Canolog** – gwella prosesau gan gynnwys disgrifiadau rôl a ffurflenni cais i sicrhau bod y rhestr ganolog yn cynnwys aelodau o gefndiroedd amrywiol.